NASUWT
The Teachers' Union
WALES

# ADRODDIAD YR AROLWG ATHRAWON CYFLENWI

Arolwg blynyddol o brofiadau 2023/24

NASUWT
The Teachers' Union
CYMRU

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Cyfleoedd i gael gwaith | 4 |
| Ffyrdd o weithio | 5 |
| Argaeledd gwaith | 7 |
| Profiadau'r athrawon cyflenwi wrth wneud gwaith mewn ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24 | 9 |
| Profiadau'r athrawon cyflenwi gyda'r ysgolion, y staff, y disgyblion a'r rhieni wrth wneud gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24 | 11 |
| Darparu'r wybodaeth allweddol i athrawon cyflenwi wrth iddynt dderbyn penodiad | 13 |
| Y cyfleusterau a'r amwynderau oedd ar gael i'r athrawon cyflenwi yn yr ysgolion lle cawsant waith | 16 |
| Problemau a phryderon, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch, oedd yn berthnasol i athrawon cyflenwi yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24 | 16 |
| Cyfraddau tâl athrawon cyflenwi yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24 | 17 |
| Y sefyllfa ariannol yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24 | 20 |
| Pensiynau | 22 |
| Hyfforddiant a chymorth rheoli ymddygiad | 23 |
| Pwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru | 23 |
| Y ffyrdd gorau i Lywodraeth Cymru gefnogi athrawon cyflenwi yn y dyfodol | 25 |
| Casgliad | 26 |

## Cyflwyniad

Mae athrawon cyflenwi'n rhan annatod o'r system addysg. Heb athrawon cyflenwi, byddai llawer o ddisgyblion yn colli allan ar gael eu haddysgu gan athrawon ymroddedig a chymwysedig sy'n sicrhau bod ysgolion yn gallu parhau i ddarparu'r addysg y mae gan blant a phobl ifanc hawl iddi. Mae athrawon cyflenwi'n gwneud cyfraniad hanfodol i sicrhau safonau addysgol uchel i bob plentyn a pherson ifanc.

Nod arolwg blynyddol NASUWT o athrawon cyflenwi yng Nghymru yw archwilio profiadau newidiol athrawon cyflenwi, gan gynnwys unrhyw broblemau a thueddiadau.


Yn ystod 2023/24, gwnaethpwyd yr arolwg rhwng misoedd Gorffennaf ac Awst.

Ymatebodd cyfanswm o 102 o athrawon cyflenwi i'r arolwg.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi canfyddiadau'r arolwg o athrawon cyflenwi a wnaethpwyd ac yn tynnu sylw at y profiadau a gafodd athrawon cyflenwi yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24.

## Cyfleoedd i gael gwaith

Gofynnwyd i'r athrawon cyflenwi pam yr oedden nhw wedi gwneud gwaith cyflenwi. Dyma'r pum prif reswm a nodwyd gan yr athrawon cyflenwi:




> *Roedd yn rhaid i mi gofrestru gyda nifer o asiantaethau er mwyn cael digon o waith.*

Pan ofynnwyd iddynt ba fanteision/anfanteision eraill sy'n gysylltiedig â bod yn athro cyflenwi, cyfeiriodd traean (33%) o'r athrawon cyflenwi at ansicrwydd ynghylch eu swyddi ac ansicrwydd ariannol, nododd 14% nad oedd yn rhaid gwneud gwaith cynllunio/marcio, cyfeiriodd 14% arall at y rhyddid i ddewis pa ysgol i weithio ynddi, nododd ychydig yn llai nag un ymhob deg (8%) y cyfle i gael gwyliau rhatach, a nododd 8% arall y cyfle i gael profiad o wahanol ysgolion.

Gofynnwyd i'r athrawon cyflenwi a oeddent wedi gallu cael gwaith addysgu yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24. Dywedodd ychydig mwy na dwy ran o bump (42%) na chawsent unrhyw drafferth cael gwaith cyflenwi, a dywedodd mwy na dwy ran o bump (43%) eu bod wedi cael trafferth cael gwaith. Ond, dywedodd mwy nag un ymhob deg (11%) o'r ymatebwyr eu bod wedi cael trafferth ddifrifol cael gwaith cyflenwi, a dywedodd ychydig yn llai nag un ymhob ugain (4%) nad oeddent wedi gallu cael unrhyw waith cyflenwi.

> *Mewn wythnos arferol, dim ond un neu ddau ddiwrnod fyddwn i'n eu cael. Rai wythnosau, fyddwn i'n cael dim byd. Roedd gen i bellter sylweddol i'w deithio i gyrraedd y gwaith a dim ond £10 a dalwyd i mi tuag at y petrol pan oeddwn wedi derbyn swydd 1.5 awr i ffwrdd.*

> *Roedd yn rhaid i mi dderbyn gwaith fel cynorthwyydd addysgu am nad oedd digon o waith cyflenwi ar gael.*

### Ffyrdd o weithio

Dywedodd ychydig mwy na pumed ran (21%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi gweithio i un ysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, dywedodd 6% eu bod wedi gweithio i ddwy ysgol, dywedodd ychydig mwy nag un ymhob deg (11%) eu bod wedi gweithio i dair ysgol, dywedodd 13% eu bod wedi gweithio i bedair ysgol, a dywedodd un ymhob deg (10%) eu bod wedi gweithio i bum ysgol. Dywedodd ychydig yn llai na dwy ran o bump (39%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi gweithio i fwy na phum ysgol.

> *Roedd gen i chwe ysgol oedd yn fy nefnyddio i'n rheolaidd neu am gyfnodau hirach o waith cyflenwi. Roedd llawer o ysgolion eraill lle gwnes i un neu ddau ddiwrnod.*

O'r athrawon cyflenwi hynny a ddywedodd eu bod wedi gallu cael gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, dywedodd mwy na pedair rhan o bump (83%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi cael gwaith drwy asiantaeth gyflenwi, er bod 14% wedi dweud eu bod wedi cael gwaith fel athro cyflenwi'n uniongyrchol gan ysgol, a dywedodd llai nag un ymhob ugain (3%) eu bod wedi cael gwaith drwy gronfa athrawon cyflenwi'r awdurdod lleol.

O'r athrawon cyflenwi hynny oedd wedi gweithio drwy asiantaeth yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, dywedodd llawer mwy na'u hanner (55%) eu bod wedi cofrestru gydag un asiantaeth er mwyn cael gwaith, dywedodd eu chwarter (25%) eu bod wedi cofrestru gyda dwy asiantaeth, dywedodd un ymhob deg (10%) eu bod wedi cofrestru gyda thair asiantaeth, a dywedodd ychydig mwy nag un ymhob ugain (6%) eu bod wedi cofrestru gyda phedair asiantaeth. Dywedodd ychydig yn llai nag un ymhob ugain (4%) eu bod wedi cofrestru gyda phum asiantaeth.

O'r athrawon cyflenwi hynny oedd wedi gweithio drwy awdurdod lleol yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, dywedodd mwy na thri chwarter (78%) yr athrawon cyflenwi eu bod wedi cofrestru gydag un awdurdod lleol, dywedodd 13% eu bod wedi cofrestru gyda dau awdurdod lleol, dywedodd 3% eu bod wedi cofrestru gyda thri awdurdod lleol, a dywedodd 3% arall eu bod wedi cofrestru gyda phedwar awdurdod lleol. Dywedodd 3% arall eu bod wedi cofrestru gyda phum awdurdod lleol.

O'r athrawon cyflenwi hynny oedd wedi gweithio'n uniongyrchol i ysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, dywedodd llai na dwy ran o dair (64%) eu bod wedi eu cyflogi gan un ysgol, dywedodd 8% eu bod wedi eu cyflogi gan ddwy ysgol, dywedodd 8% arall eu bod wedi eu cyflogi gan dair ysgol, a dywedodd 16% eu bod wedi eu cyflogi gan bedair ysgol. Dywedodd ychydig yn llai nag un ymhob ugain (4%) eu bod wedi eu cyflogi gan bum ysgol.

Dywedodd ychydig mwy na pumed ran (21%) o'r athrawon cyflenwi fod hyn yn fwy o ysgolion nag yr oeddent wedi eu cofrestru â nhw yn y flwyddyn academaidd flaenorol, er bod ychydig yn llai na phumed ran (19%) wedi dweud fod hyn yn llai, a dywedodd tair rhan o bump (60%) fod y nifer wedi aros ar yr un lefel.

> *Gweithiais am gyfnod o absenoldeb mamolaeth drwy'r asiantaeth am y pedwar mis cyntaf. Yna roeddwn ar gontract drwy'r awdurdod lleol am weddill y flwyddyn academaidd.*

> *Roedd yn rhaid i mi ymuno ag asiantaeth arall am nad oedd digon o waith ar gael.*

> *Cofrestrais ag un neu ddwy o asiantaethau llynedd, ond naill ai doeddwn i'n cael dim gwaith ganddynt neu roedd y gwaith yn rhy bell i ffwrdd.*

Dywedodd pumed ran (20%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi gorfod teithio hyd at 10 milltir i gael gwaith cyflenwi, dywedodd mwy na'u chwarter (28%) eu bod wedi teithio rhwng 11 a 20 milltir, dywedodd ychydig mwy na phumed ran (21%) eu bod wedi teithio rhwng 21 a 30 milltir, dywedodd ychydig yn llai na phumed ran (19%) eu bod wedi gorfod teithio rhwng 31 a 40 milltir i gael gwaith cyflenwi, a dywedodd un ymhob ugain (5%) eu bod wedi


teithio rhwng 41 a 50 milltir. Dywedodd 3% o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi gorfod teithio rhwng 51 a 60 milltir i gael gwaith cyflenwi, dywedodd 1% eu bod wedi teithio rhwng 61 a 70 milltir, dywedodd 1% arall eu bod wedi teithio rhwng 71 a 80 milltir, a dywedodd 1% arall eu bod wedi teithio rhwng 81 a 90 milltir. Dywedodd 1% arall o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi gorfod teithio mwy na 100 milltir yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24.

Dywedodd 19% o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi gorfod teithio ymhellach i gael gwaith nag y gwnaethant mewn blynyddoedd blaenorol. Dywedodd ychydig mwy na thair rhan o bump (62%) o'r athrawon cyflenwi fod yr argyfwng costau byw wedi cael effaith niweidiol ar y pellter y maen nhw'n barod i'w deithio i gael gwaith cyflenwi.

### Argaeledd gwaith

Gofynnwyd i'r athrawon cyflenwi ymhle maen nhw wedi gallu cael gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24. Dywedodd ychydig yn llai na thraean (31%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi cael gwaith cyflenwi mewn ysgolion cynradd, dywedodd llawer mwy na thraean (37%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi cael gwaith mewn ysgolion uwchradd, a dywedodd un ymhob deg (10%) eu bod wedi cael gwaith cyflenwi mewn ysgol arbennig neu uned cyfeirio disgyblion.

### Y mannau lle'r oedd athrawon cyflenwi wedi cael gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24




O'r athrawon cyflenwi hynny a ddywedodd eu bod wedi gallu cael gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, dywedodd mwy na'u hanner (57%) eu bod wedi gwneud y rhan fwyaf o'u gwaith cyflenwi ar sail ad hoc neu ddyddiol, dim ond un ymhob deg (10%) a ddywedodd eu bod wedi cael gwaith fel penodiadau wythnosol, a dywedodd 1% eu bod wedi cael penodiadau misol. Dywedodd ychydig mwy nag un ymhob ugain (6%) o'r athrawon cyflenwi fod y rhan fwyaf o'u gwaith yn benodiadau am dymor, a dywedodd ychydig mwy na chwarter (26%) fod y rhan fwyaf o'u gwaith addysgu'n benodiadau oedd yn hirach na thymor.

Pan ofynnwyd i'r athrawon cyflenwi am sawl diwrnod bob wythnos, ar gyfartaledd, y gallent gael gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, dywedodd 15% ohonynt eu bod wedi cael gwaith am un diwrnod yr wythnos, dywedodd ychydig yn llai na'u chwarter (23%) eu bod wedi cael gwaith am ddau ddiwrnod yr wythnos, a dywedodd ychydig mwy na phumed ran (21%) eu bod wedi cael gwaith am dri diwrnod yr wythnos. Dywedodd 14% o'r athrawon cyflenwi a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod wedi gallu cael gwaith am bedwar diwrnod yr wythnos, a dywedodd mwy na'u chwarter (27%) eu bod wedi gallu cael gwaith am bum niwrnod yr wythnos. Ond, dywedodd llawer mwy na phedair rhan o bump (86%) o'r athrawon cyflenwi eu bod eisiau gweithio rhwng tri a phum niwrnod yr wythnos.

Dywedodd llawer mwy na dwy ran o bump (44%) o'r athrawon cyflenwi fod maint y gwaith cyflenwi wedi gostwng yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24 o'i gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol, ond dim ond 18% a ddywedodd bod maint y gwaith cyflenwi wedi cynyddu. Dywedodd ychydig yn llai na dwy ran o bump (38%) o'r ymatebwyr fod y cyfleoedd wedi aros ar yr un lefel.

> *Roedd blwyddyn 2021/22 yn dda iawn. Roeddwn i'n cael gwaith rheolaidd am bum niwrnod yr wythnos. O Ionawr 2023 ymlaen, sylwais fod y gwaith yn gostwng. Aeth pethau'n fwy anghyson a byddwn yn cael gwaith yma ac acw. Ond lleihaodd y gwaith yn amlwg iawn ym mis Medi 2023 ac aeth pethau mor ddrwg yn 2024 nes na chefais i unrhyw incwm o gwbl o waith cyflenwi ym mis Ionawr.*


> *Y rhan fwyaf o flynyddoedd, roeddwn i'n boddi mewn gwaith, ond rwy'n cael llawer llai o waith eleni.*




## Profiadau'r athrawon cyflenwi wrth wneud gwaith mewn ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24

Gofynnwyd cwestiynau i'r athrawon cyflenwi ynglŷn â'u profiadau o weithio yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24.

Er gwaethaf y ffaith ei fod yn ofyniad cyfreithiol ers mis Ebrill 2020 i athrawon cyflenwi dderbyn Dogfen Wybodaeth Allweddol gyda manylion am eu tâl ac unrhyw ddidyniadau cysylltiedig, a materion allweddol eraill, dim ond 29% o'r athrawon cyflenwi hynny a gafodd waith drwy asiantaeth gyflenwi newydd a ddywedodd eu bod wedi derbyn y ddogfen hon, a dywedodd llawer mwy na dwy ran o bump (44%) nad oedden nhw'n gwybod a gawsent Ddogfen Wybodaeth Allweddol gan yr asiantaeth ai peidio.




**Dywedodd 29% o'r athrawon cyflenwi a gafodd waith drwy asiantaeth gyflenwi newydd a ddywedodd eu bod wedi derbyn Dogfen Wybodaeth Allweddol gyda manylion am eu tâl ac unrhyw ddidyniadau cysylltiedig, a materion allweddol eraill.**

> *"Ni dderbyniais Ddogfen Wybodaeth Allweddol neu ni soniwyd am y ddogfen wrthyf; ond, rydw i wedi gweld esiampl ohoni ar borth ar-lein yr asiantaeth, er nad yw'n benodol berthnasol i'm cyfradd tâl i."*


> *I fod yn deg, hyd yn hyn, rydw i wedi cael fy nhalu mewn ffordd agored, broffesiynol a dibynadwy, yn brydlon ac yn gywir.*

Dywedodd ychydig yn llai nag un ymhob ugain (4%) o'r athrawon cyflenwi fod un o'r asiantaethau wedi gofyn iddynt wneud 'prawf am ddim' yn yr ysgol cyn cael gwaith â thâl.

Dywedodd 14% o'r athrawon cyflenwi fod eu gwaith wedi cael ei ganslo ar benodiadau hirdymor penodol wrth gyrraedd, neu ar ôl cyrraedd, cyfnod cymhwyso 12 wythnos y Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth.

> *Dywedodd yr ysgol wrthyf na fyddent yn talu cyflog cyfartal i mi o'r 13 wythnos ymlaen. Nid yw IntroTeach wedi crybwyll na gofyn i mi gael fy nhalu'n gywir wedi i mi weithio am 12 wythnos. Dywedodd yr ysgol y byddent yn dod o hyd i rywun arall os nad oeddwn eisiau cael fy nhalu ar gyfradd arferol yr asiantaeth.*

Dywedodd ychydig mwy na hanner (51%) yr athrawon cyflenwi eu bod wedi bod mewn sefyllfa lle'r oedd asiantaeth wedi eu bwcio ac yna wedi eu canslo nhw'n sydyn ac yn annisgwyl yn ystod y 12 mis diwethaf.




## Profiadau'r athrawon cyflenwi gyda'r ysgolion, y staff, y disgyblion a'r rhieni wrth wneud gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24


Dywedodd ychydig yn llai na hanner (49%) yr athrawon cyflenwi fod yr ysgol yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt bob amser, a dywedodd llawer mwy na dwy ran o bump (46%) fod yr ysgol yn gwneud iddyn nhw deimlo'n aml fod croeso iddynt. Ond, dywedodd 3% mai yn anaml iawn y mae'r ysgol yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt, a dywedodd 2% nad ydy'r ysgol byth yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt. Pan ofynnwyd iddynt faint o groeso maen nhw'n ei deimlo gan y staff addysgu yn yr ysgolion, dywedodd ychydig mwy na thraean (35%) o'r athrawon cyflenwi eu bod yn teimlo bod croeso iddynt bob amser ganddynt, a dywedodd llawer mwy na dwy ran o bump (46%) eu bod wedi teimlo bod croeso iddynt yn aml gan y staff addysgu yn yr ysgolion. Ond, dywedodd 15% o'r athrawon cyflenwi mai yn anaml iawn y mae'r staff addysgu yn yr ysgolion yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt, a dywedodd ychydig yn llai nag un ymhob ugain (4%) nad ydy'r staff addysgu yn yr ysgolion byth yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt.

Pan ofynnwyd iddynt faint o groeso maen nhw'n ei deimlo gan y *cynorthwywyr addysgu* yn yr ysgolion, dywedodd 16% o'r athrawon cyflenwi eu bod yn teimlo bod croeso iddynt bob amser ganddynt, a dywedodd ychydig yn llai na thair rhan o bump (58%) fod y cynorthwywyr addysgu yn yr ysgolion yn aml yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt. Ond, dywedodd ychydig mwy na chwarter (26%) yr athrawon cyflenwi mai yn anaml iawn y mae'r cynorthwywyr addysgu yn yr ysgolion yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt.

Pan ofynnwyd iddynt faint o groeso maen nhw'n ei deimlo gan y *staff gweinyddol* yn yr ysgolion, dywedodd ychydig yn llai na thair rhan o bump (59%) o'r athrawon cyflenwi eu bod yn teimlo bod croeso iddynt bob amser ganddynt, a dywedodd ychydig yn llai na'u chwarter (23%) fod y staff gweinyddol yn yr ysgolion yn aml yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt. Ond, dywedodd ychydig yn llai nag un ymhob deg (9%) mai yn anaml iawn y mae'r staff gweinyddol yn yr ysgolion yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt, a dywedodd 9% arall nad ydy'r staff gweinyddol yn yr ysgolion byth yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt. Pan ofynnwyd iddynt faint o groeso maen nhw'n ei deimlo gan y *disgyblion* yn yr ysgolion, dywedodd traean (33%) o'r athrawon cyflenwi eu bod yn teimlo bod croeso iddynt bob amser ganddynt, a dywedodd 30% fod y disgyblion yn yr ysgolion yn aml yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt. Ond, dywedodd 30% arall o'r athrawon cyflenwi mai yn anaml iawn y mae'r disgyblion yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt, a dywedodd 7% nad ydy'r disgyblion byth yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt.

Mewn perthynas â faint o groeso maen nhw'n ei deimlo gan y *rhieni*, dywedodd ychydig mwy nag un ymhob deg (11%) o'r athrawon cyflenwi eu bod yn teimlo bod croeso iddyn nhw yn aml iawn. Ond, dywedodd llawer mwy na'u hanner (56%) mai yn anaml iawn y maen nhw'n teimlo bod croeso iddyn nhw gan y rhieni, a dywedodd traean (33%) nad ydyn nhw byth yn teimlo bod croeso iddynt gan y rhieni.







Dywedodd ychydig yn llai na naw allan o ddeg (89%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi rhoi gwybod am y digwyddiad(au) i rywun yn yr ysgol; ond, dywedodd 14% o'r rheiny a roddodd wybod am y digwyddiad na chymerwyd unrhyw gam gweithredu yn erbyn y disgybl, a dywedodd mwy na'u chwarter (28%) nad oedden nhw'n gwybod neu na roddwyd gwybod iddynt a gymerwyd cam gweithredu ai peidio.

> *Ymdriniodd yr ysgol yn briodol â'r sefyllfa. Gwaharddwyd y disgybl o'r ysgol am gyfnod penodol.*

> *Rwyf wedi dioddef cam-drin llafar a thriniaeth ymosodgar gan ddisgyblion uwchradd. Rwyf hefyd wedi cael fy nhrin yn wael gan staff derbynfa a chynorthwywyr addysgu mewn ysgolion.*

### Darparu'r wybodaeth allweddol i athrawon cyflenwi wrth iddynt dderbyn penodiad

O'r athrawon cyflenwi hynny oedd wedi cael gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, dywedodd llawer mwy na'u hanner (57%) na chawsent yr asesiad risg cyffredinol ar gyfer yr ysgol, a dywedodd 16% nad oedden nhw'n siŵr.

Dywedodd ychydig yn llai na thraean (32%) o'r athrawon cyflenwi na chawsent fanylion y trefniadau ar gyfer cadw athrawon cyflenwi'n ddiogel wrth gyrraedd y gweithle a rhoi gwybod eu bod yn bresennol, a dywedodd bron i ddwy ran o dair (64%) na chawsent fanylion unrhyw weithdrefnau ac unrhyw drefniadau diogelu mewn perthynas â COVID-19, gan gynnwys unrhyw gymorth ariannol sydd ar gael.

Dywedodd ychydig yn llai na thair rhan o bump (59%) o'r athrawon cyflenwi na chawsent fanylion yr hylif diheintio dwylo sydd ar gael, a sut i gael gafael arno, a dywedodd 60% na chawsent fanylion y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod ystafelloedd dosbarth a mannau gweithio'n cael eu hawyru'n dda.

Dywedodd mwy na phumed ran (22%) na chawsent fanylion unrhyw berson cyswllt dynodedig, os bydd unrhyw gwestiwn, problem neu argyfwng yn codi, a dywedodd mwy nag un ymhob deg (12%) o'r athrawon cyflenwi na chawsent fanylion le i fynd a phwy i fynd atynt i roi gwybod eu bod wedi cyrraedd bob dydd, gan gynnwys manylion y broses o gofrestru.

Dywedodd mwy na thraean (36%) o'r athrawon cyflenwi na chawsent fanylion ynglŷn â sut i godi unrhyw bryderon ynglŷn ag iechyd a diogelwch, a dywedodd 37% na chawsent fanylion ynglŷn â sut i alw am gymorth, gan gynnwys cymorth cyntaf. Ymhellach, dywedodd ychydig mwy na thair rhan o bump (61%) o'r athrawon cyflenwi na chawsent fanylion yr ystafell cymorth cyntaf agosaf, neu'r man priodol agosaf.

Dywedodd mwy na thraean (36%) o'r athrawon cyflenwi na chawsent fanylion cynlluniau gwacáu'r ysgol os byddai tân, gan gynnwys gweithdrefnau a llwybrau dianc, pan oedden nhw'n gwneud gwaith mewn ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24.

Dywedodd 36% na chawsent daith o amgylch safle'r ysgol, gan nodi'r ystafelloedd lle byddent yn addysgu wrth iddynt wneud gwaith yn yr ysgol.

Dywedodd 15% o'r athrawon cyflenwi na chawsent, pan oedden nhw'n gwneud gwaith mewn ysgolion, gopi o'r amserlen sy'n nodi egwyliau ac amseroedd cinio, yn ogystal â'r hyn a ddisgwylir gan y staff yn ystod cyfnodau o'r fath.

Dywedodd ychydig yn llai na dwy ran o bump (38%) o'r ymatebwyr na chawsent, pan oedden nhw'n gwneud gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, fanylion y broses gofrestru a'r hyn a ddisgwylir gan y disgyblion o ran symud yn briodol o amgylch safle'r ysgol rhwng gwersi, yn ystod egwyliau ac amseroedd cinio, ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

Mewn perthynas â'r gwaith addysgu, dywedodd ychydig yn llai na hanner (49%) yr athrawon cyflenwi na chawsent fanylion ynglŷn â sut i gael gafael ar wybodaeth berthnasol am y cynlluniau gwaith ar gyfer y pynciau y bydd disgwyl iddynt eu haddysgu, a dywedodd mwy na dwy ran o bump (43%) na chawsent fanylion ynglŷn â sut i gael gafael ar y deunyddiau addysgu perthnasol.

> *Derbyniais yr holl wybodaeth uchod ar gyfer y penodiad tymor hir; ond ychydig iawn o wybodaeth am yr ysgolion a dderbyniais ar benodiadau tymor byr neu ddyddiol.*

Yn ogystal, dywedodd ychydig yn llai na thraean (31%) o'r athrawon cyflenwi na chawsent fanylion ynglŷn â sut i gael gafael ar gyfrifiaduron, gyda'r manylion mewngofnodi a'r camau gweithredu i'w cymryd ar ddiwedd y diwrnod ysgol, a dywedodd mwy na'u hanner (57%) na chawsent fanylion unrhyw adnoddau (megis ysgrifbinnau) y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt eu darparu.

Dywedodd llai na hanner (47%) yr ymatebwyr na chawsent restr o'r disgyblion sydd yn y dosbarth(iadau) y byddent yn eu haddysgu, gan gynnwys manylion unrhyw gyflyrau meddygol, problemau ymddygiad, neu anghenion addysgol arbennig ac anableddau (AAAA), a dywedodd ychydig mwy na thair rhan o bump (61%) o'r athrawon cyflenwi na chawsent fanylion unrhyw ddisgyblion


y gwyddys eu bod â'r potensial i fod yn dreisgar, ynghyd â manylion y ffordd y dylent gael eu rheoli.

Ymhellach, dywedodd 45% o'r athrawon cyflenwi na chawsent bolisi'r ysgol ar reoli ymddygiad, gan gynnwys pwy i gysylltu â hwy wrth iddynt wneud gwaith yn yr ysgol.

Dywedodd dwy ran o bump (40%) o'r athrawon cyflenwi na chawsent fanylion unrhyw ddigwyddiadau, cyfarfodydd neu weithgareddau penodol a fydd yn cael eu cynnal yn ystod y penodiad, a dywedodd llai na thair rhan o bump (57%) na chawsent fanylion y trefniadau ar gyfer cludiant i'r ysgol, fel y bo'n briodol, wrth iddynt wneud gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24.

> *Pan fyddaf yn gofyn am unrhyw rai o'r uchod, rwy'n eu derbyn nhw fel arfer. Rwyf wedi dweud wrth yr asiant dro ar ôl tro bod angen iddyn nhw roi gwybod i'r ysgolion bod yn rhaid iddynt roi/adael darnau penodol o wybodaeth ac adnoddau penodol i athrawon cyflenwi, ond anaml iawn y mae hynny'n digwydd.*

> *Mae hyn yn amrywio rhwng yr ysgolion. Bydd rhai ysgolion yn rhoi gwybodaeth fanwl i chi. Dydy eraill ddim.*



## Y cyfleusterau a'r amwynderau oedd ar gael i'r athrawon cyflenwi yn yr ysgolion lle cawsant waith

Pan ofynnwyd iddynt am gyfleusterau ac amwynderau oedd ar gael iddynt wrth wneud gwaith cyflenwi mewn ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, dywedodd ychydig mwy na thraean (34%) o'r athrawon cyflenwi nad oedd caniatâd iddynt bob amser i fynd i ystafelloedd y staff pan oedden nhw ar gael, dywedodd tair rhan o bump (60%) nad oedd y cyfleusterau bwyd a diod i'r staff ar gael iddyn nhw bob amser, a dywedodd 18% nad oedd toiledau/ymolchfeydd ar gael iddyn nhw bob amser. Dywedodd hanner (50%) yr athrawon cyflenwi nad oedd caniatâd iddyn nhw barcio yn y maes parcio bob amser.

Pan ofynnwyd iddynt am y penodiadau a gawsent yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, dywedodd ychydig mwy na hanner (52%) yr athrawon cyflenwi fod person cyswllt dynodedig ar gael iddyn nhw drwy gydol yr amser, a dywedodd ychydig yn llai na thraean (32%) fod person cyswllt dynodedig ar gael iddyn nhw am rywfaint o'r amser. Dywedodd 16% o'r athrawon cyflenwi nad oedd unrhyw berson cyswllt dynodedig ar gael iddyn nhw.

**Dywedodd 60% o'r athrawon cyflenwi nad oedd y cyfleusterau bwyd a diod i'r staff ar gael iddyn nhw bob amser pan oedden nhw'n gwneud gwaith cyflenwi.**

## Problemau a phryderon, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch, oedd yn berthnasol i athrawon cyflenwi yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24

Dywedodd ychydig yn llai na chwarter (24%) yr athrawon cyflenwi nad oeddent yn teimlo bod unrhyw broblemau neu bryderon a godwyd ganddynt yn cael eu cymryd o ddifrif, a dywedodd eu chwarter (25%) nad oedden nhw'n gwybod.

> *Yr hyn sy'n digwydd yn aml iawn yw nad ydyn nhw'n eich cymryd o ddifrif am eich bod yno am gyfnod byr yn unig.*


> *Mae'r ysgolion yn gwrando arnaf bob amser. Rwy'n athro profiadol, rwyf wedi cael gwaith mewn ysgolion lle mae ymddygiad y disgyblion yn heriol, ac mae ysgolion yn gofyn i mi fynd yn ôl yno.*

Dywedodd ychydig mwy na thraean (34%) o'r athrawon cyflenwi oedd wedi cael gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24 eu bod yn pryderu am eu hiechyd a'u diogelwch pan oedden nhw'n gwneud gwaith cyflenwi mewn ysgolion, a dywedodd ychydig yn llai nag un ymhob deg (8%) o'r athrawon cyflenwi eu bod yn teimlo y gallai eu gwaith gael ei ganslo neu y gallent gael eu cosbi am ddatgelu gwybodaeth bersonol am eu hiechyd a'u diogelwch (e.e. eu bod yn feichiog).

> *Dydw i ddim wedi rhoi gwybod bod fy iechyd yn gwaethygu am fy mod yn ofni effeithiau gwneud hynny.*

### Cyfraddau tâl athrawon cyflenwi yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24

Mewn perthynas â chyfraddau tâl, gofynnwyd i'r athrawon cyflenwi hynny a lwyddodd i gael gwaith drwy un o'r asiantaethau oedd wedi eu cofrestru gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, a oedden nhw wedi derbyn tâl oedd yn gyfwerth â phwynt cyflog M2 o leiaf (sef £157.66 ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24). Dywedodd ychydig mwy na pedair rhan o bump (81%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi derbyn tâl oedd yn gyfwerth â phwynt cyflog M2 o leiaf, a dywedodd 15% o'r athrawon cyflenwi nad oeddent wedi derbyn tâl cyfwerth.




O'r athrawon cyflenwi hynny na chawsent eu talu'n unol â'r trefniadau a osodwyd gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24, dywedodd mwy nag un ymhob deg (13%) eu bod wedi cael eu talu rhwng £51 a £119 y dydd ar gyfer penodiadau, dywedodd ychydig yn llai na'u chwarter (24%) eu bod wedi cael eu talu rhwng £120 a £149 y dydd, a dywedodd eu hanner (50%) eu bod wedi cael eu talu rhwng £150 a £199 y dydd ar gyfer penodiadau. Dywedodd mwy nag un ymhob deg (13%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi derbyn tâl o £200 y dydd neu fwy ar gyfer penodiadau.


Dywedodd llawer mwy na hanner (54%) yr athrawon cyflenwi fod y cyfraddau tâl a gawsent yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24 yr un fath â'r rheiny y gallent eu hennill yn y flwyddyn academaidd flaenorol, a dywedodd 17% fod y cyfraddau tâl a gawsent yn is na'r rheiny y gallent eu hennill yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Dywedodd mwy na'u chwarter (28%) fod y cyfraddau tâl a gawsent yn uwch na'r rheiny y gallent eu hennill yn y flwyddyn academaidd flaenorol.

> *Yn fy marn i, dylem gael ein talu'n unol â'r raddfa gyflog. Rwy'n derbyn yr un tâl ag athro newydd, er fy mod wedi addysgu ers bron i 20 mlynedd.*

Pan ofynnwyd i'r athrawon cyflenwi a oedd gan yr asiantaethau yr oeddent wedi gweithio iddynt yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, derfyn uchaf mewn perthynas â'u taliadau, nododd ychydig yn llai na hanner (49%) yr athrawon cyflenwi fod ganddynt derfyn uchaf o'r fath.

> *Mae'r asiantaeth yn rhoi yr un gyfradd dâl i'r holl athrawon cyflenwi, beth bynnag fo eu profiad.*


**Dywedodd yr athrawon cyflenwi fod eu hasiantaeth(au) wedi gwneud y canlynol i'w cyfradd dâl yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24:**



**Dywedodd 30% o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi gallu negodi neu sicrhau cynnydd yn eu cyfradd ddyddiol gydag asiantaeth(au) yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24.**

> *Mae'r cyfraddau'n amrywio rhwng yr ysgolion, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Gwahanol gyfraddau ar gyfer gwahanol rolau.*

> *Roeddwn i'n gofyn cyfradd ychydig yn uwch ar gyfer ysgolion oedd ymhellach i ffwrdd.*




**Dywedodd 18% o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi gallu cael mwy o arian wrth weithio drwy awdurdod lleol neu'n uniongyrchol ag ysgol nag y byddent o gael gwaith cyflenwi drwy asiantaeth.**

> *Dim ond un diwrnod gefais i gan yr awdurdod lleol, er i mi fod ar eu llyfrau am flwyddyn. Talodd £60 yn fwy nag asiantaeth.*


> *£85 y dydd yn fwy.*

> *£40 y dydd [yn fwy], yn ogystal â phensiwn llawer gwell.*

## Y sefyllfa ariannol yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24

Gofynnwyd cwestiynau i'r athrawon cyflenwi ynglŷn â'u sefyllfa ariannol yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24.

Dywedodd llawer mwy na dwy ran o bump (46%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi canfod gwaith mewn meysydd eraill y tu allan i addysgu yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24. Dywedodd ychydig yn llai na naw allan o ddeg (88%) ohonynt nad oedd y gwaith a gawsent y tu allan i addysgu wedi darparu'r un lefel o incwm ariannol ag y byddent wedi ei derbyn os bydden nhw wedi gallu cael gwaith addysgu.



Dywedodd ychydig yn llai na phumed ran (18%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi gorfod gwneud cais am ryw fath neu'i gilydd o fudd-dâl y wladwriaeth (e.e. Credyd Cynhwysol) yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, a dywedodd llawer mwy na hanner (57%) yr ymatebwyr eu bod wedi wynebu caledi ariannol fel athro cyflenwi dros yr un cyfnod.

**Dywedodd 57% o'r ymatebwyr eu bod wedi wynebu caledi ariannol fel athro cyflenwi.**

> *Rwy'n fwy gofalus wrth wario/cadw cyllideb.*

> *Rwyf wedi canslo fy yswiriant bywyd. Rwy'n byw mewn fflat oer, a'r cyfan i arbed arian ar gostau trydan. Dim moethau, dim gwyliau a dim bywyd cymdeithasol.*

> *Heb gymorth Credyd Cynhwysol bob mis, benthyciad personol (Awst 2023), cronfeydd bwyd, cyllid llesiannol/cymorth grant unwaith yn unig a gostyngiad yn fy nhreth gyngor a fy miliau gwasanaethau, ni fyddwn wedi gallu byw (yn llythrennol) ar yr arian rwyf wedi gallu ei ennill fel athro cyflenwi.*

**Dywedodd ychydig yn llai na saith allan o ddeg (69%) o'r athrawon cyflenwi a ymatebodd i'r arolwg fod gwneud gwaith cyflenwi, a pheidio gallu cael swydd barhaol, wedi cael effaith niweidiol ar eu gallu i wneud penderfyniadau arwyddocaol yn eu bywydau.**

## Pensiynau

Er bod y ddeddfwriaeth yn atal athrawon cyflenwi sy'n gweithio i asiantaeth gyflenwi rhag talu i mewn i'r Cynllun Pensiwn Athrawon, dywedodd mwy na dwy ran o dair (68%) eu bod yn dal yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon. Dywedodd mwy na thraean (36%) ohonynt eu bod yn aelodau gweithredol ar hyn o bryd, dywedodd dwy ran o bump (40%) eu bod yn aelodau gohiriedig, a dywedodd ychydig yn llai na'u chwarter (24%) eu bod yn derbyn eu pensiwn yn barod.

O'r athrawon cyflenwi hynny a nododd nad oeddent yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, dywedodd eu chwarter (25%) nad oeddent yn aelodau o unrhyw gynllun pensiwn arall, a dywedodd mwy nag un ymhob deg (12%) nad oeddent yn siŵr.

> *Mae gen i bensiwn NEST gyda New Directions.*

> *Nid yw'r cynlluniau pensiwn a gynigir gan asiantaethau gystal o bell ffordd â'r Cynllun Pensiwn Athrawon.*

> *Gwastraff ymdrech. Wedi eu gwneud i asiantaethau dalu i mewn iddynt. Dylai fod yn orfodol i asiantaethau cyflenwi allu defnyddio'r Cynllun Pensiwn Athrawon ar gyfer pob gwaith addysgu.*

> *Mae NEST yn anobeithiol! Llawer rhy isel. Mae angen i athrawon cyflenwi gael mynediad i'r Cynllun Pensiwn Athrawon neu byddent ar fudd-daliadau pan fyddent yn cyrraedd oedran pensiwn.*

NASUWT
The Teachers' Union
CYMRU

### Hyfforddiant a chymorth rheoli ymddygiad

Dywedodd llai na dwy ran o bump (37%) o'r athrawon cyflenwi na chawsent unrhyw ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn ystod y 12 mis diwethaf.

O'r athrawon cyflenwi hynny oedd wedi cael cyfleoedd DPP, cawsent yr hyfforddiant yn bennaf drwy gyfrwng asiantaethau cyflenwi (80%), gan yr ysgolion yr oeddent wedi gweithio ynddynt (24%), roeddent wedi talu amdano eu hunain (12%), neu gan eu hundebau llafur (9%).

**Dywedodd 37% o'r athrawon cyflenwi na chawsent unrhyw gyfleoedd DPP.**

Wrth sôn am gymryd rhan mewn diwrnodau hyfforddiant mewn swydd (HMS) a ddarparwyd gan ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, dim ond 16% o'r athrawon cyflenwi a ddywedodd bod pob un o'r ysgolion yr oeddent wedi gweithio ynddynt wedi gofyn iddynt gymryd rhan mewn diwrnodau HMS, a dywedodd ychydig mwy nag un ymhob deg (11%) fod rhai o'r ysgolion wedi gofyn iddynt gymryd rhan mewn diwrnodau HMS.

Dywedodd llai na thri chwarter (72%) yr athrawon cyflenwi na ofynnwyd iddynt gymryd rhan mewn unrhyw ddiwrnodau HMS a ddarparwyd gan yr ysgolion yr oeddent wedi gweithio ynddynt.

> *"Gwaith cyflenwi o ddydd i ddydd roeddwn i'n ei wneud gan fwyaf, felly methais fanteisio ar unrhyw gyfleoedd DPP a diwrnodau HMS, sy'n bechod oherwydd, fel athro cyflenwi, rwy'n teimlo fy mod ei angen fwy nag unrhyw un."*

### Pwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru

Dywedodd ychydig yn llai na hanner (49%) yr athrawon cyflenwi eu bod yn ymwybodol o Bwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru.

Dywedodd mwy na thraean (36%) o'r athrawon cyflenwi a oedd yn gwybod amdano eu bod wedi cofrestru gyda Phwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru.

Ymhellach, o'r athrawon cyflenwi a ddywedodd eu bod yn gwybod am Bwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru, nid oes unrhyw un wedi dweud eu bod wedi cael unrhyw waith cyflenwi drwyddo.

> *Mae'n gwbl anobeithiol.*

> *Ar hyn o bryd, mae Pwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru ychydig bach fel rhithlun yn yr anialwch. Rydych wrth eich bodd yn ei weld o bell, ond wrth i chi agosáu mae'n diflannu, h.y. dim cyfathrebiad am waith o gwbl.*

> *Rwyf wedi bod yn gweithio fel athro cyflenwi ers mwy na degawd. Roeddwn i ar yr Uwch Raddfa Gyflog pan adewais ysgol brif ffrwd. Ers hynny, rwyf wedi bod yn ennill yr un tâl ag athro newydd. Dydw i ddim yn cael tâl gwyliau na thâl salwch.*


> *Mae'r diffyg cymorth, parch a sefydlogrwydd, yn ogystal â'r gyfradd dalu wael, a'r profiad ofnadwy a gefais y tymor diwethaf, yn gwneud gwaith cyflenwi'n eithriadol o annymunol.*

> *Rwyf o dan straen mawr wrth feddwl am ddychwelyd i wneud gwaith cyflenwi drwy asiantaeth ym mis Medi. Rwyf wedi bod yn gweithio dan gontract awdurdod lleol y flwyddyn academaidd hon, a chefais fy nhalu ar bwynt cyflog UPS3. Byddaf yn colli llawer iawn o arian wrth ddychwelyd i weithio drwy asiantaeth ym mis Medi. Ni fyddaf yn gallu talu fy morgais, fy miliau a fy nyledion a gefais pan oeddwn i'n gweithio i asiantaethau, sydd, mewn gwirionedd, yn eich cyflogi chi ar gontract 'dim oriau', heb dâl salwch na thâl gwyliau.*

**Dywedodd ychydig yn llai na dwy ran o bump (37%) o'r athrawon cyflenwi nad oeddent yn teimlo eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch.**

> *Mae rhai aelodau o staff yn fy nhrin i fel rhywun israddol ac yn rhywun i roi'r bai arno, yn enwedig pan maen nhw'n cyfeirio atoch chi fel 'supply' ac nid 'supply teacher'.*

> *Mewn un ysgol, roedd cod i fynd i mewn i'r ystafell athrawon; ni roddwyd y cod i mi. Doeddwn i ddim yn gwybod lle'r oedd y toiledau ac ni ddywedwyd wrthyf. Roedd yn rhaid i mi ofyn i ddisgybl. Roedd cod i fynd i mewn i'r toiledau felly allwn i ddim eu defnyddio. Gofynnais i aelod o'r staff ac aethant ati i agor y drws i mi, ond heb roi'r cod i mi!*



## Casgliad

Mae canfyddiadau'r arolwg o athrawon cyflenwi'n pwysleisio'r rôl hanfodol a chwaraewyd gan athrawon cyflenwi mewn ysgolion yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24.

Fodd bynnag, mae'r arolwg hwn yn awgrymu bod y profiadau a gafodd athrawon cyflenwi yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24 yn amrywiol. I rai athrawon cyflenwi, mae'r cyfleoedd i gael gwaith wedi cynyddu, ond mae eraill wedi gorfod teithio ymhellach i gael gwaith, er gwaethaf y ffaith bod yr argyfwng costau byw'n parhau.

Er gwaethaf cyflwyno'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ac ymrwymiad i dalu yn unol â chyfradd ddyddiol sy'n gyfwerth â phwynt cyflog M2 (sef £157.66 ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24), gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer o athrawon cyflenwi a ddywedodd nad yw asiantaethau'n talu'n gyfatebol â hyn.

Yn ogystal, o ystyried y cynnydd yn nifer yr athrawon cyflenwi hynny sydd wedi dweud eu bod wedi ennill llai o arian o'i gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol, yn ogystal â'r cynnydd yn nifer yr athrawon cyflenwi hynny a ddywedodd bod asiantaethau'n rhoi terfyn uchaf ar eu taliadau (waeth beth yw lefel eu profiad a'u harbenigedd), nid yw'n syndod bod llawer mwy o athrawon cyflenwi yng Nghymru wedi dweud eu bod wedi gorfod chwilio am waith mewn meysydd eraill y tu allan i addysgu.

O ystyried hynny, yn ogystal â mympwyon gwaith ysbeidiol ac ansicr, mae nifer fwy o athrawon wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â'u sefyllfa ariannol, gan gynnwys gostwng eu gwariant ar eitemau hanfodol megis bwyd a gwresogi. Mae rhai athrawon cyflenwi wedi gorfod mynd i ôl-ddyled ar eu morgais/rent hyd yn oed, yn ogystal â dibynnu ar gronfeydd bwyd.

Ymhellach, mae canlyniadau'r arolwg yn 2023/24 yn dangos bod nifer fawr o asiantaethau ac ysgolion yn dal i fethu'n rheolaidd â rhoi gwybodaeth allweddol i athrawon cyflenwi ymroddedig a chymwysedig, gan gynnwys gwybodaeth am y disgyblion y mae disgwyl iddyn nhw eu haddysgu, yn ogystal â gwybodaeth iechyd a diogelwch hanfodol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel.

Mae pobl yn pryderu bod yr anghysonderau hyn yn eu triniaeth yn cael effaith anghymesur ar athrawesau, athrawon anabl ac athrawon du a lleiafrifoedd ethnig, sy'n fwy tebygol o gael eu cyflogi fel athrawon cyflenwi.

Yn y cyd-destun hwn, mae canlyniadau'r arolwg yn 2023/24 yn cadarnhau'r ffaith bod angen brys am sicrhau 'gwell bargen' i athrawon cyflenwi sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniad pwysig a sylweddol i'r system addysg yng Nghymru.